

# **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Canolfan Feddygol Clare  
Road/Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 22 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)**

## Cynnwys

|    |  |    |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad .....  | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym.....  | 8  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....   | 10 |
|    | Darparu gofal diogel ac effeithiol .....                                 | 18 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....                                 | 25 |
| 4. | Beth nesaf? .....  | 29 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....                       | 30 |
|    | Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... | 31 |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....                             | 32 |
|    | Atodiad C – Cynllun gwella.....  | 33 |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

**Rhoi sicrwydd:**

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Clare Road, 148 Clare Road, Grangetown, CF11 6RW, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 22 Awst 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwr cymheiriaid meddygon teulu ac adolygwr rheolwyr practis.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Canolfan Feddygol Clare Road yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes o ran darparu gwasanaethau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwnaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC sylwadau cadarnhaol iawn am y gwasanaeth roeddent wedi'i gael gan y practis.
- Gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth siarad â'r cleifion ac aelodau o'u teulu/gofalwyr.
- O'r hyn a welwyd, roedd adeiladau'r practis yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, roeddent yn lân, yn glir rhag rhwystrau ac wedi'u haddurno'n hyfryd. O ganlyniad, roedd amgylchedd diogel a phleserus ar gael i'r cleifion dderbyn eu gofal.
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r practis ddangos ei fod yn cydymffurfio â threfniadau Gweithio i Wella<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> Mae Gweithio i Wella yn ymwneud â'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan Gorff Cyfrifol yng Nghymru. Y nod yw darparu proses unigol fwy integredig a chefnogol i bobl godi pryderon.

- Agweddau ar gadw cofnodion o fewn cofnodion y cleifion
- Mae angen datblygu neu ddiwygio systemau, prosesau a gweithdrefnau'r practis. Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff diogelwch ac ansawdd y gofal i gleifion ac iechyd, llesiant a diogelwch staff eu monitro'n effeithiol a'u gwella.

Gweler Atodiad C yr adroddiad arolygu hwn am fanylion y gwelliannau eraill a nodwyd yn ystod ein harolygiad.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Canolfan Feddygol Clare Road yn darparu gwasanaethau i tua 4,500 o gleifion yn ardal Grangetown yng Nghaerdydd.

Mae'r ddau feddyg teulu sy'n berchen ar y practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un nyrs practis rhan amser; nyrs locwm (sy'n gweithio yn y ganolfan feddygol ar ddiwrnodau eraill), rheolwr practis llawn amser a thîm bach o staff gweinyddol a derbynyddion. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff rolau deublyg. Mae meddygon teulu locwm yn gweithio yn y practis weithiau.

Yn ogystal, mae gweithwyr proffesiynol a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau cymorth clinigol. Yn benodol, mae'r cyfryw staff yn cynnwys nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, fflebotomyddion<sup>2</sup> a nyrs seiciatrig gymunedol.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaethau meddygol cyffredinol
- Gofal i gleifion â salwch terfynol
- Clinig plant/babanod
- Rheoli clefydau cronig
- Cyngor atal cenhedlu
- Gwasanaethau na chânt eu darparu fel rhan o wasanaethau'r GIG (er enghraifft, cwblhau adroddiadau ac archwiliadau meddygol preifat).

Er hwylustod, cyfeirir at Ganolfan Feddygol Clare Road fel y practis drwy gydol yr adroddiad hwn.

---

<sup>2</sup>Mae fflebotomyddion yn cymryd samplau gwaed gan gleifion i'w hanfon i labordai er mwyn cynnal profion diagnostig arnynt.





## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Darparodd y cleifion sylwadau cadarnhaol iawn am ddull gweithredu'r tîm o staff a'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 30 o holiaduron. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

*'Mae'r gwasanaeth yn ardderchog'*

*'Mae'r (meddyg teulu) yn brydlon ac yn ofalgar'*

*"Mae gen i a'm teulu ffydd mawr yn (y meddyg teulu) a chaiff y practis ei redeg yn effeithlon'*

*"Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn ardderchog. Caf fy nghroesawu â pharch a gwrandewir ar fy mhroblemau"*

## Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth o bosteri a thafleuni i'r cleifion a'u teuluoedd fynd â nhw yn y ddwy ardal aros yn y practis. Felly, roedd pwyslais ar helpu'r cleifion a'u gofalwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Gwelsom hefyd yr arddangosfa o gyngor a gwybodaeth yn benodol i ofalwyr, ar hysbysfwrdd penodedig yn yr ystafell aros. Roedd y practis wedi enwebu Hyrwyddwyr Gofalwyr y gallai gofalwyr gysylltu ag ef i gael cyngor a chymorth. Cawsom ddisgrifiad cryno o'i rôl, a oedd yn cynnwys rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ofalwyr am amrywiol asiantaethau a sefydliadau lleol a allai roi cymorth iddynt wrth iddynt ymgymryd â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Roedd cofrestr gofalwyr ar waith a oedd yn helpu tîm y practis i fod yn ymwybodol o'r rheini â chyfrifoldebau gofalu ffurfiol.

Nid oedd unrhyw arwyddion dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) ar safle'r practis; fodd bynnag, gwelsom fod rhai o'r taflenni gwybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg.

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau meddygol cyffredinol a oedd yn anelu at hybu iechyd a llesiant y cleifion. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys arweiniad ar ffitrwydd i weithio, cyngor ar gyflyrau meddygol hirdymor e.e. diabetes a chyngor er mwyn rhoi'r gorau i ysmegu.

## **Gofal gydag urddas**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiadur AGIC o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y staff yn trin cleifion â chwarteisi a phroffesiynoldeb drwy gydol ein hymweliad.

Roedd desg y dderbynfa yn rhan integredig o un o'r ddwy ardal aros i gleifion. Yn anffodus, nid oedd y trefniant hwn yn cynnig unrhyw fath o breifatrwydd pan fyddai'r cleifion yn siarad â'r staff wrth iddynt gyrraedd. Fodd bynnag, clywsom y staff yn gostwng eu llais er mwyn atal eraill yn yr ardal aros rhag clywed sgysiau cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl.

Roedd y practis wedi ystyried ffyrdd o ddiogelu preifatrwydd y cleifion yn y dderbynfa. Er enghraifft, roedd sgrin persbecs clir a oedd wedi'i gosod ar ddesg y dderbynfa yn helpu i atal pobl yn yr ystafell aros rhag clywed sgysiau ffôn â chleifion, a oedd yn cael eu gwneud a'u derbyn yn yr ardal honno. Cawsom wybod hefyd fod y practis wedi cyflwyno cynlluniau i'r bwrdd iechyd lleol gyda'r bwriad o wneud addasiadau strwythurol i ardal y dderbynfa. Fodd bynnag, hyd yn hyn, ni chytunwyd ar y cynlluniau hyn.

Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth yn agos at y ddwy ardal aros. Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd hyn wedi'u cau yn ystod ymgynghoriadau. Cawsom wybod hefyd fod drysau newydd wedi cael eu gosod ar yr ystafelloedd ymgynghori yn ystod y deuddeg mis diwethaf er mwyn ceisio atal sgysiau rhag cael eu clywed gan gleifion yn yr ardaloedd aros. Roedd hyn yn helpu i ddiogelu preifatrwydd y cleifion pan oedd y meddyg teulu neu'r nyrs yn eu gweld.

Nodwyd gennym nad oedd staff y dderbynfa yn gallu gweld yr ail ardal aros o gwbl. Felly, gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried ffordd o ymdrin â'r mater hwn (er enghraifft, gosod camerâu CCTV). Awgrymwyd hyn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.

Cadarnhaodd y staff a wnaeth siarad â ni y gallai'r cleifion ofyn i hebryngwr fod yn gwmni iddynt yn ystod eu hymgyngoriadau. Nod defnyddio hebryngwyr yw

diogelu cleifion a staff gofal iechyd pan gynhelir archwiliadau personol o'r cleifion. Dywedwyd wrthym y disgwyliwyd y byddai'r meddygon teulu yn cynnig gwasanaeth hebryngwr o dan amgylchiadau priodol. Gwelsom wybodaeth wedi'i harddangos yn y ddwy ardal aros yn hysbysu'r cleifion y gallent ofyn i hebryngwr fod yn bresennol yn ystod eu hymgyngoriadau. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant staff yn y maes hwn hefyd.

## Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth hawdd dod o hyd iddi am y gwasanaethau a ddarperir yn y practis ar gael i'r cleifion drwy wefan y practis. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r practis y gellid gwella'r wefan drwy hybu Fy Iechyd Ar-lein yn well<sup>3</sup>. Roedd hyn er mwyn helpu'r cleifion i wneud apwyntiadau a gwneud ceisiadau am bresgripsiynau amlroddadwy, y byddai'r ddau o fudd i'r cleifion ac i'r gwasanaeth.

Roedd y practis wedi llunio taflen wybodaeth i gleifion. Roedd y daflen hon yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y practis a'r gwasanaethau a gynigir, ond nid oedd wedi cael ei diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau o ran y ffordd y caiff gwybodaeth am gleifion ei defnyddio. Roedd hyn yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol cyfredol ar Ddiogelu Data (GDPR)<sup>4</sup>. Roedd hefyd angen diwygio'r daflen wybodaeth er mwyn rhoi gwybodaeth glir i'r cleifion am y broses o godi pryderon/cwynion yn unol â threfniadau Gweithio i Wella a deddfwriaeth bresennol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)<sup>5</sup>.

---

<sup>3</sup>Yn yr un modd â gwasanaethau bancio ar-lein, gallwch gofrestru ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau ar-lein gan eich meddyg teulu. Bydd y gwasanaethau hyn yn amrywio o bractis i bractis a byddant yn dibynnu ar yr hyn a gynigir gan eich practis. Ond yn gyffredinol, gall cleifion wneud apwyntiadau a gwneud ceisiadau am bresgripsiynau amlroddadwy.

<sup>4</sup> Disodlodd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y cytunwyd arno gan Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ym mis Ebrill 2016, Gyfarwyddeb Diogelu Data 95/46/ec yn ystod gwanwyn 2018 fel y brif gyfraith sy'n rheoleiddio'r ffordd y caiff data personol dinasyddion yr UE eu diogelu.

<sup>5</sup>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi diogelwch cyfreithiol i bobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac o fewn cymdeithas ehangach. Disodlodd y cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol gan gyflwyno Deddf unigol, gan wneud y gyfraith yn haws i'w deall ac atgyfnerthu'r diogelwch mewn rhai sefyllfaoedd.

Roedd gwefan y practis hefyd yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol i gleifion gan y GIG mewn amrywiaeth o ieithoedd.

Gwnaethom adolygu cofnodion meddygol sampl o'r cleifion. Roedd y rhain yn dangos yn glir bod gwybodaeth lafar wedi'i rhoi i'r cleifion i'w helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol, yr ymchwiliadau cysylltiedig a'r trefniadau rheoli.

Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i gael cydsyniad gan y cleifion ar gyfer mân driniaethau llawfeddygol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir i annog mwy o gleifion i ddefnyddio gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein, er budd cleifion a'r practis.

Mae'n ofynnol i'r practis ddiwygio ei daflen gwybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys cyfeiriadau perthnasol at drefniadau Gweithio i Wella a Deddf Cydraddoldeb 2010.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Gwelsom hefyd fod y practis yn ystyried anghenion cyfathrebu'r cleifion. Er enghraifft, cadarnhaodd staff y dderbynfa fod dolen sain (anghludadwy) weithredol ar gael yn y dderbynfa yn unig. Mae'r offer hwn yn helpu'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â'r staff. Fodd bynnag, dywedodd wrthym hefyd mai anaml yr oedd cleifion yn gofyn am gael ei defnyddio.

Roedd arwyddion da ar gyfer pob rhan o'r practis er mwyn helpu'r cleifion i wybod ble roedd y cyfleusterau.

Tynnodd sgysiau gydag aelodau o dîm y practis sylw at y ffaith bod gwasanaeth cyfieithu cyfrinachol dros y ffôn yn cael ei ddefnyddio weithiau pan fyddai cleifion nad Saesneg oedd eu mamiaith yn ymweld â'r practis. Cawsom wybod hefyd fod y cleifion yn cael eu hannog i ddod â rhywun gyda nhw gan ei bod weithiau'n anodd cael gafael ar y gwasanaeth cyfieithu uchod. Cadarnhaodd trafodaethau pellach â'r staff hefyd na fyddai aelodau o'r teulu/gofalwyr yn cael eu defnyddio fel dewis amgen yn lle'r gwasanaeth

cyfieithu mewn archwiliadau o natur bersonol, gan gydnabod sensitifrwydd sefyllfaoedd o'r fath.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod gohebiaeth/deunydd cyfathrebu a oedd yn dod i mewn i'r practis yn cael ei ddarllen ac y gweithredwyd yn briodol. Eglurodd y staff hefyd y trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau y tynnir sylw'r meddygon, y nyrs neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymweld â'r practis at negeseuon (gan gleifion ac eraill) mewn modd amserol.

Gwelsom y byddai staff y practis yn gwneud cryn ymdrech i gysylltu â'r cleifion hynny yr oedd angen iddynt ddychwelyd i'r practis i gael profion pellach neu i ailadrodd profion. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad dilynol gyda'r meddyg teulu yn ôl yr angen.

Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i hysbysu'r gwasanaethau y tu allan i oriau os oedd iechyd cleifion yn dirywio neu os oeddent yn sâl iawn.

Gwnaethom edrych ar sampl o grynodedbau rhyddhau cleifion a dderbyniwyd gan ysbytai lleol. Roedd ansawdd y sampl yn amrywiol. Mae angen i'r bwrdd iechyd lleol drafod hyn gyda'r ysbytai perthnasol.

## **Gofal amserol**

Datgelodd sgysiau â'r tîm a chynnwys cynllun datblygu'r practis fod y system apwyntiadau cleifion yn cael ei hadolygu'n barhaus; a bod newidiadau yn cael eu gwneud i'r cymysgedd o apwyntiadau cyffredin rheolaidd a'r ymgynghoriadau brys diderfyn ar y dydd. Gwnaed hyn mewn ymateb i anghenion cleifion. Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu'n bersonol drwy ymweld â'r practis.

Nododd nifer fach o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi gorfod aros pythefnos i weld y meddyg teulu o'u dewis. I'r gwrthwyneb, nododd 17 o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn trefnu apwyntiadau, nododd 12 eu bod yn ei chael hi'n gymharol hawdd a nododd un person nad oedd yn hawdd iawn.

Nid oedd system na phroses ffurfiol ar waith yn fewnol o ran cael ail farn ar ddiagnosis cleifion. Ni wnaethom lwyddo ychwaith i ddod o hyd i dystiolaeth o broses adolygu cymheiriaid ffurfiol mewn perthynas â chyfraddau atgyfeirio cleifion a chanlyniadau. Cawsom sicrwydd fod y ddau feddyg teulu yn trafod achosion cleifion yn rheolaidd, yn enwedig yn yr achosion lle roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y diagnosis, a chawsom rywfaint o dystiolaeth o drefniadau ar gyfer olrhain atgyfeiriadau. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r practis fod angen datblygu trefniadau cadarn a ffurfiol ar gyfer rheoli'r agweddau uchod ar ofal cleifion.

Ond cawsom sicrwydd fod y practis yn defnyddio protocolau hysbys ar gyfer achosion brys lle yr amheuir bod y claf yn dioddef o ganser er mwyn sicrhau y câi'r cleifion ofal a thriniaeth amserol. Roedd pob atgyfeiriad o'r fath yn cael ei anfon drwy drefniadau trosglwyddo electronig Cymru Gyfan.

Roedd dogfen o'r enw 'A Guide to Urgency for Non-clinical staff in General Practice' ar gael i staff y dderbynfa. Roedd hon o gymorth iddynt benderfynu pwy y dylai cleifion ei weld, a pha mor gyflym.

Cawsom wybod fod gwasanaeth fflebotomi yn cael ei gynnig gan y practis ddwywaith yr wythnos (wedi'i ddarparu gan y bwrdd iechyd lleol). Ar bob adeg arall, byddai angen i nyrs y practis, neu'r meddygon, gymryd samplau o waed y cleifion er mwyn sicrhau gofal amserol. Nodwyd gennym hefyd weithiau bod angen i aelod clinigol o dîm y practis gludo samplau gwaed brys i'r ysbyty lleol. Roedd hyn gan fod y gwasanaeth cludo yn casglu samplau erbyn canol y bore bob dydd, fan bellaf.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Hysbyswyd y practis bod angen iddo ddarparu manylion am y camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir i sicrhau bod adolygiadau cymheiriaid ffurfiol yn cael eu cynnal o atgyfeiriadau cleifion i AGIC. Dylid gwneud hyn er mwyn gallu nodi gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd yr holl gyfleusterau i'r cleifion wedi'u lleoli ar lawr daear safle'r practis; roedd drysau awtomatig wedi'u gosod yn y brif fynedfa. Yn ogystal, roedd y drysau y tu mewn i'r adeilad yn ddigon llydan i allu defnyddio cadeiriau olwyn, sgwteri modur a chadeiriau gwthio i blant yn ddiogel. Dywedwyd wrthym y byddai ramp cludadwy yn cael ei defnyddio i helpu'r cleifion i ddod i mewn i'r practis o'r gris bach wrth y fynedfa, os oedd angen. Roedd desg y dderbynfa hefyd ar lefel isel a fyddai'n galluogi'r cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn i siarad â'r staff.

Roedd manau parcio ceir ar gael yn yr ardal breswyl o amgylch y practis.

Roedd toiled ar lawr daear y practis er mwyn hybu annibyniaeth cleifion ag anawsterau corfforol/symudedd.

Dyweddodd 26 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau; nododd pedwar eu bod yn ansicr.

Gwelsom fod anghenion hirdymor rhai o'r cleifion yn cael eu monitro'n effeithiol. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y cleifion hynny â diabetes neu bwysedd gwaed uchel. Fodd bynnag, roedd y tîm clinigol yn wynebu rhai heriau mewn perthynas â rheoli a monitro cyflyrau iechyd hirdymor eraill. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod angen mwy o nyrsys ar y practis. Er gwaethaf ymdrechion rhagweithiol i hysbysebu, ni llwyddwyd i lenwi'r bwlch.

Disgrifiodd y staff hefyd yr ymdrechion a wnaed i gysylltu â chleifion nad oeddent yn gallu dod i'r feddygfa a'r rheini ag anghenion ychwanegol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Archwiliwyd cofnodion tri chlaf gennym, a llwyddwyd i gadarnhau bod eu perthnasau, eu gofalwyr ac asiantaethau priodol wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau gofal.

### **Hawliau pobl**

Mae'r canfyddiadau a ddisgrifir gennym drwy gydol yr adran hon (Ansawdd profiad y claf) yn nodi bod y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran hawliau pobl.

Yn ogystal, gwelsom fod aelodau o deuluoedd/cynrychiolwyr cleifion bob amser yn cael eu croesawu gan y staff pan fyddent yn dod yn gwmni i'r bobl yn ystod eu hapwyntiadau.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Er y gallai'r cleifion ddarparu sylwadau ac awgrymiadau llafar, nid oedd system ffurfiol ar waith gan y clinig i gael gwybod barn y cleifion mewn ffordd reolaidd a gweithredol. Roedd y tîm wedi treialu'r defnydd o flwch awgrymiadau yn y dderbynfa yn y gorffennol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y cleifion wedi manteisio ar y cyfle hwn.

Nid oedd unrhyw system ar waith ar hyn o bryd ar gyfer cofnodi pryderon/cwynion llafar. Yn ogystal, nid oedd yr amseroedd ymateb i bryderon



gan gleifion yn cydymffurfio â threfniadau Gweithio i Wella ac nid oedd gan y practis gopi o'i bolisi a'i weithdrefn cwynion. Fodd bynnag, roedd cofnodion yn cael eu cadw mewn perthynas â phryderon y tynnwyd sylw'r practis atynt gan y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol.<sup>6</sup>

Nid oedd gan y practis Grŵp Cyfranogiad Cleifion<sup>7</sup> ar adeg ein harolygiad.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Hysbysir y practis bod angen datblygu system ffurfiol ar gyfer cael gwybod barn cleifion mewn modd rheolaidd a gweithredol.

Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu system ar gyfer cofnodi pryderon llafar gan gleifion a/neu eu perthnasau/gofalwyr, a'r ymateb iddynt, yn unol â threfniadau Gweithio i Wella.

---

<sup>6</sup> Mae Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) yn gyrrff annibynnol, a sefydlwyd gan y gyfraith, sy'n gwrando ar yr hyn sydd gan unigolion a'r gymuned i'w ddweud am y gwasanaethau iechyd mewn perthynas ag ansawdd, swm a phriodolrwydd y gwasanaethau a ddarperir iddynt a'r gallu i gael gafael ar y gwasanaethau hynny. Wedyn, maent yn gweithredu fel llais y cyhoedd wrth hysbysu rheolwyr gwasanaethau iechyd am yr hyn y mae pobl am ei gael a sut y gellir gwella'r sefyllfa. Yn eu tro, mae CICau hefyd yn ymgynghori'n uniongyrchol â'r cyhoedd ar rai materion er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd yn briodol i'r Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaeth neu Lywodraeth Cymru.

<sup>7</sup>Yn gyffredinol, mae grwpiau cyfranogiad cleifion yn cynnwys grŵp o gleifion sy'n gwirfoddoli i gymryd rhan, rheolwr y practis ac un neu fwy o'r meddygon teulu o'r practis. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod y gwasanaethau a gynigir, a sut y gellir gwneud gwelliannau er budd cleifion a'r practis.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, roedd y practis yn rhoi pwyslais ar sicrhau ansawdd a diogelwch ym mhob gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella agweddau ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Yn ogystal, roedd angen gwella elfennau ar y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau, cadw cofnodion, dadansoddiadau o ddigwyddiadau pwysig a rhannu rhybuddion o ran diogelwch cleifion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis yn gweithredu o ddau dŷ wedi'u cyfuno a'u haddasu ar Clare Road, Grangetown, Caerdydd. Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y safle cyfan yn lân, yn drefnus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Yn ogystal, roedd digon o seddau i'r cleifion a'u teuluoedd yn y ddwy ardal aros.

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw aelodau o dîm y practis a oedd yn defnyddio offer cyfrifiadurol am sawl awr bob dydd wedi bod yn destun asesiad risg Offer Sgrin Arddangos (DSE)<sup>8</sup>. Trafodwyd hyn gydag uwch aelodau o'r tîm gan fod asesiadau risg o'r fath yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

---

<sup>8</sup> Mae'n ofynnol i gyflogwyr ddiogelu gweithwyr rhag y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â gweithio ag offer sgrin arddangos (DSE), megis cyfrifiaduron personol, gliniaduron, llechi a ffonau

Er y dywedwyd wrthym bod trefniadau ar waith i sefydliad allanol ymweld â'r practis i archwilio'r offer diogelwch tân, cynhaliwyd yr ymweliad diwethaf ar 23 Hydref 2017 (gyda'r ymweliad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer chwe mis ar ôl hynny). Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r practis, nid oedd tystiolaeth ar gael o ymweliad ym mis Ebrill 2018. Nid oedd tystiolaeth ar gael ychwaith bod profion (wythnosol) rheolaidd yn cael eu cynnal ar y system larwm tân. Felly, tynnwyd sylw at y mater hwn yn ystod ein harolygiad. Rydym yn cyfeirio ymhellach at y materion uchod yn yr adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn, gan fod angen cmryd camau gwella ffurfiol mewn perthynas â'r meysydd hyn.

### Atal a rheoli heintiau

Yn ddieithriad, nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC (cyfanswm o 30) eu bod yn fodlon iawn â glendid amgylchedd y practis.

Gwelsom fod cofnodion staff unigol wedi cael eu cadw mewn perthynas â'u statws imiwneiddio Hepatitis B. Fodd bynnag, o'r cofnodion a oedd ar gael, ni welsom dystiolaeth bod asesiad risg wedi'i gwblhau ar gyfer un aelod o'r staff clinigol a oedd wedi ymateb yn wael i gyrsiau imiwneiddio yn y gorffennol. Felly, gwnaethom hysbysu'r practis fod angen gwneud hyn, gan ei bod yn hanfodol y caiff y staff a'r cleifion eu diogelu rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd cyfleusterau hylendid dwylo priodol ym mhob rhan o'r safle. Roedd hyn yn cynnwys cyfarpar diogelu personol addas fel menig, ac roedd glanedydd dwylo ar gael yn y dderbynfa ac yn yr ystafelloedd ymgynghori. Roedd hyn yn golygu bod pwyslais yn cael ei roi ar atal a rheoli heintiau.

Roedd llenni tafladwy wedi'u gosod ym mhob un o'r ystafelloedd ymgynghori er mwyn helpu i atal achosion o groes-heintio.

---

deallus. Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrin Arddangos) 1992 yn gymwys i weithwyr sy'n defnyddio offer o'r fath bob dydd, am gyfnod o awr neu fwy ar y tro.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas ag un aelod o'r staff clinigol sydd wedi ymateb yn wael i frechiadau Hepatitis B.

## Rheoli meddyginiaethau

Datgelodd trafodaethau â'r staff a'r wybodaeth am gleifion a gofnodwyd a ystyriwyd gennym fod y system a'r prosesau a oedd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau o safon dderbyniol.

Nid oedd fferyllydd clwstwr<sup>9</sup> ar gael i'r practis ei ddefnyddio ar adeg yr arolygiad hwn. Roedd y swydd yn wag ar y pryd.

Gwelsom fod cofnod o archwiliadau rheolaidd o offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng; roedd y cofnodion wedi'u dyddio ac wedi'u llofnodi'n briodol gan y staff. Fodd bynnag, nid oedd y ffebotomydd a oedd yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad yn gwybod ble roedd yr offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei gadw yn y practis. Gallai hyn arwain at oedi wrth ymateb i glaf a oedd wedi llewygu.

Cadarnhawyd gennym bod gan y practis ocsigen i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Fodd bynnag, roedd y ddau silindr a oedd ar gael yn rhy drwm i'w symud ac nid oedd cyflenwad ocsigen symudol ar gael. O ganlyniad, gallai fod oedi wrth ymateb i glaf mewn argyfwng.

Roedd y practis yn defnyddio system gydnabyddedig ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw adweithiau andwyol gan gleifion i gyffuriau. Ond dywedwyd wrthym na fu unrhyw ddigwyddiadau diweddar o'r fath.

---

<sup>9</sup> Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Pennir Clystyrau gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILiau) unigol GIG Cymru. Mae 64 o rwydweithiau clwstwr ledled Cymru, sy'n gwasanaethu poblogaethau sy'n cynnwys rhwng 30,000 a 50,000 o gleifion.

Fodd bynnag, nodwyd gwelliannau fel y'u dangosir yn y blwch isod.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y ffordd y caiff agweddau ar y trefniadau rheoli meddyginiaethau eu gwella yn y dyfodol, mewn perthynas â'r canlynol:

- Dylid sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis bob amser yn ymwybodol o leoliad offer dadebru/offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng
- Rhaid sicrhau bod ffynhonnell therapi ocsigen addas ar gael i dîm y practis i'w defnyddio mewn argyfwng
- Mae angen atgyfnerthu'r broses ar gyfer monitro cleifion y rhagnodwyd meddyginiaeth risg uchel iddynt megis lithiwm<sup>10</sup> a methotrecsad<sup>11</sup> fel y trafodwyd yn ystod ein harolygiad
- Nid oedd unrhyw system ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o'r system rhagnodi (gan gynnwys adolygiad o wallau a digwyddiadau pwysig).

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Cawsom wybod fod un o'r meddygon teulu yn gyfrifol am faterion diogelu. Gwnaethom gadarnhau hefyd fod y tîm staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed ar lefel a oedd yn berthnasol i'w rôl.

---

<sup>10</sup> Defnyddir cyfansoddion lithiwm, y cyfeirir atynt hefyd fel halen lithiwm, fel meddyginiaeth seiciatrig yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys trin anhwylder iselder sylweddol nad yw'n gwella ar ôl defnyddio cyffuriau gwrthiselder eraill, ac anhwylder deubegynol

<sup>11</sup> Defnyddir methotrecsad i drin rhai mathau penodol o ganser y fron, y croen, y pen a'r gwddf, neu'r ysgyfaint. Fe'i defnyddir hefyd i drin psoriasis difrifol ac arthritis gwynegol. Fel arfer, rhoddir methotrecsad ar ôl rhoi cynnig ar feddyginiaethau eraill a methu â thrin y symptomau yn llwyddiannus.

Datgelodd trafodaeth gydag un o'r meddygon teulu fod ymwelydd iechyd yn cynnal sesiwn wythnosol yn y practis lle y gellid cyfnewid gwybodaeth berthnasol am ofal cleifion.

Roedd y practis yn cadw cofrestr o blant a oedd yn wynebu risg, er mwyn sicrhau bod y staff clinigol yn ymwybodol bod angen cymorth a threfniadau rheoli priodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni allai'r practis gadarnhau p'un a oedd y gofrestr yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal<sup>12</sup>.

Ni lwyddodd y practis i ddarparu tystiolaeth i ni bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)<sup>13</sup> yn cael eu cynnal fel rhan o'i drefniadau recriwtio. Rydym yn cyfeirio ymhellach at recriwtio yn adran nesaf yr adroddiad hwn, sef 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth'.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis gadarnhau p'un a yw cofrestr o'r plant sy'n wynebu risg yn cynnwys manylion plant sy'n derbyn gofal.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cawsom sgrysiâu ag uwch feddyg teulu a chawsom wybod fod rhybuddion diogelwch yn cael eu derbyn ar ffurf electronig gan bob aelod o'r staff clinigol.

---

<sup>12</sup> Plant sy'n derbyn gofal. Ystyr plant mewn gofal yw plant sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

<sup>13</sup> Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn nodi p'un a oes gan unigolyn gofnod troseddol, neu a yw ar restr swyddogol o'r unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio mewn swyddi lle y gellir dod i gysylltiad â phlant neu oedolion a all fod yn agored i niwed.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd rhybuddion o'r fath yn cael eu rhannu'n ffurfiol, nac yn cael eu rhoi ar waith, gan aelodau perthnasol o dîm y practis.

Cawsom enghreifftiau cryno o gofnodion o ddigwyddiadau pwysig<sup>14</sup> a dywedwyd wrthym fod y meddygon teulu yn trafod digwyddiadau o'r fath yn anffurfiol. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau ffurfiol ar waith i ddadansoddi a thrafod digwyddiadau pwysig.

Gwnaethom gadarnhau fod gan y meddygon teulu wybodaeth dda am y canllawiau diweddar a luniwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)<sup>15</sup>. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o drafodaethau ffurfiol am y canllawiau hynny gydag aelodau perthnasol eraill o'r tîm.

O ganlyniad i'r uchod, mae'n bosibl y caiff cyfleoedd i ddysgu a gwella ym mhob rhan o'r tîm eu methu.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir i sicrhau y caiff rhybuddion diogelwch a natur/canlyniadau digwyddiadau pwysig eu rhannu gyda'r staff. Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd, er mwyn hybu dysgu ym mhob rhan o dîm y practis ac er mwyn atal digwyddiadau pellach.

#### Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi

Cawsom enghreifftiau o sampl o weithgareddau archwilio a gwblhawyd (2016-2018). Roedd dwy enghraifft yn ymwneud â meddyginiaeth a ragnodwyd; roedd

---

<sup>14</sup> Mae dadansoddi digwyddiadau pwysig (SEA) yn dechneg ddysgu gyfunol a ddefnyddir i ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion (amgylchiadau lle y cafodd claf niwed neu y gallai claf fod wedi cael niwed) a materion ansawdd gofal eraill.

<sup>15</sup> Rôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yw darparu canllawiau awdurdodol, cadarn a dibynadwy i gleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am yr 'arfer gorau' presennol.

y drydedd yn ymwneud â gordewdra ymhlith cleifion. Roedd y tair enghraifft yn cynnwys cyfeiriadau at y gwersi a ddysgwyd a'r canlyniadau i gleifion.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu cynnwys sampl o gofnodion cleifion, ac roeddem o'r farn bod ansawdd y broses o gadw cofnodion o safon dderbyniol ar y cyfan. Er enghraifft, gwelsom fod tystiolaeth yn cael ei chofnodi o gyfathrebu da â'r cleifion o ran trafodaethau gyda meddygon teulu am eu cyflyrau gofal iechyd a'r cynlluniau triniaeth. Roedd tystiolaeth yn cael ei chofnodi hefyd o'r ffordd roedd y cleifion yn cael eu cwnsela mewn perthynas â'r feddyginiaeth a ragnodwyd iddynt a'r ymdrechion a wnaed gan y staff clinigol i ofalu am eu cleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, nodwyd gennym bod angen gwneud gwelliannau fel y dangosir yn y blwch isod.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu disgrifiad i AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Er bod y staff yn crynhoi cofnodion meddygol cleifion newydd, nid oedd unrhyw bolisi na gweithdrefn ar waith fel sail i'r dasg bwysig hon. Gallai hyn arwain at anghysondeb rhwng gwiriadau ansawdd ad hoc ar hap
- Nid oedd unrhyw adolygiad systemataidd yn gysylltiedig ag ansawdd cofnodion data a fyddai'n helpu i wella ansawdd cofnodion y cleifion
- Roedd diffygion yn y ffordd yr oedd diagnosisu pwysig yn cael eu cyflwyno i gleifion. Gallai hyn effeithio ar ansawdd y wybodaeth ar dudalennau crynodeb cofnodion cleifion. Yn benodol, gallai'r sefyllfa bresennol arwain at ddryswch ar ran meddygon teulu'r practis a/neu aelodau newydd ac aelodau locwm o'r staff o ran cynlluniau gofal cleifion parhaus
- Roedd angen sicrhau bod y cyswllt rhwng y meddyginiaethau a ragnodwyd a chyflyrau hirdymor cleifion yn gliriach yng nghofnodion y cleifion er mwyn hwyluso trefniadau parhaus ar gyfer rheoli cleifion.



## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd tîm y practis yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod y practis yn cael ei reoli'n dda. Fodd bynnag, nodwyd gennym bod angen gwneud nifer o welliannau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu cyffredinol. Mynegodd y tîm ei barodrwydd i wella'r gwasanaethau a ddarperir yn unol â hyn.

Gwnaethom lwyddo i gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Ar adeg ein harolygiad, roedd dau feddyg teulu yn berchen ar y practis ac yn ei weithredu. Roedd rheolwr practis llawn amser hefyd yn gweithio yno ac yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gan y tîm o staff gweinyddol nifer o rolau a chyfrifoldebau, yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer tîm bach. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff weithio ar ran ei gilydd yn ystod absenoldebau, gan leihau'r risg o darfu ar wasanaethau i'r cleifion. Fodd bynnag, cawsom wybod fod dau aelod o'r staff wedi gadael y practis yn ddiweddar. Er gwaethaf yr ymdrechion gorau, arweiniodd y materion uchod, ynghyd â dibyniaeth ormodol ar un aelod o'r staff, at ddiffyg goruchwyliaeth i ryw raddau mewn perthynas â nifer o'r prosesau a'r gweithdrefnau allweddol a oedd yn sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad, mae angen gwelliannau ffurfiol fel yr amlinellir yn y blwch isod.

O ganlyniad i'r uchod, roedd yn anodd i'r tîm arolygu feithrin dealltwriaeth glir o'r trefniadau llywodraethu cyffredinol sydd eu hangen i fonitro a gwella ansawdd y

gofal a'r trefniadau ar gyfer darparu'r gofal hwnnw. Fodd bynnag, roedd parodrwydd amlwg ar ran tîm y practis i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Nodwyd bod y meddygon teulu yn trafod achosion clinigol yn anffurfiol bob dydd. Fodd bynnag, nid oedd y staff nyrsio yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd hynny. Felly, nododd y tîm arolygu y dylai pob aelod o staff perthnasol gael eu cynnwys at ddibenion dysgu a pharhad gofal cleifion.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd amlddisgyblaeth yn cael eu cynnal bob chwarter, er i ni gael gwybod nad oedd cleifion unigolyn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hynny.

Fel arfer, roedd cyfarfodydd staff eraill yn cael eu cynnal unwaith y mis a chawsom enghreifftiau o'r nodiadau cryno a lunnir yn dilyn y cyfarfodydd hynny. Er bod rhywfaint o dystiolaeth o roi gwybodaeth (a oedd yn berthnasol i swyddogaethau'r practis), prin oedd y dystiolaeth bod trafodaethau deuffordd yn cael eu hannog na bod cyfleoedd i'r staff gynnig awgrymiadau a syniadau.

Roedd un o'r meddygon teulu ac aelod o'r staff gweinyddol yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr meddygon teulu. Cawsom wybod hefyd am gynigion i gyflogi nyrs rhwng y practisau sy'n gysylltiedig â'r clwstwr lleol, at ddiben gwella gofal i'r cleifion.

Cadarnhawyd gennym hefyd bod gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd ddilys (hyd at 30 Gorffennaf 2019).

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion llawn i AGIC am y camau a gymerwyd mewn perthynas â'r materion a ddisgrifir isod:

- Nid oedd cynllun parhad busnes y practis yn cynnwys rhifau cyswllt allweddol na digon o fanylion i ddangos bod trefniadau addas ar waith o ran digwyddiadau megis colli trydan, gwres, llifogydd, achos sylweddol o absenoldeb ymhlith y staff
- Mae angen datblygu polisiâu a gweithdrefnau newydd, a diweddarau polisiâu a gweithdrefnau allweddol, er mwyn helpu'r staff i ymgymryd â'u gwaith o ddydd i ddydd (er enghraifft, mewn perthynas â phryderon/cwynion, trefniadau rheoli a chymariaethau'r practis mewn perthynas ag atgyfeirio cleifion i ofal eilaidd)
- Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol mewn perthynas â rheoli dadansoddiadau o ddigwyddiadau pwysig. O ganlyniad, roedd

cyfleoedd i drafod a dysgu yn cael eu methu

- Nid oedd cofrestr glir ar gyfer cleifion ag anghenion ychwanegol. O ganlyniad, gall y practis wynebu heriau wrth sicrhau y caiff anghenion cleifion o'r fath eu diwallu
- Roedd diffyg dealltwriaeth ymhlith y staff a chamau gweithredu cyfyngedig yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r trefniadau GDPR newydd ar gyfer rheoli gwybodaeth am gleifion
- Mae angen trefniadau recriwtio staff cadarn. Nodir hyn gan nad oedd modd i ni gael sicrwydd bod y staff wedi cael eu recriwtio'n briodol, na'u bod yn gymwys ac yn fedrus mewn perthynas â'r rolau yr oedd disgwyl iddynt ymgymryd â nhw. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddarparu manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod pob aelod o staff a gyflogir yn y gwasanaeth wedi bod yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt
- Nid oedd prosesau diogelu clir i'r staff eu dilyn
- Mae angen cydymffurfio ag agweddau ar ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch (yn benodol, gwiriadau diogelwch tân ac asesiadau risg i'r staff mewn perthynas â defnyddio Offer Sgrin Arddangos).

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Nododd y staff a siaradodd â ni fod yr hyfforddiant roeddent yn ei gael fel arfer yn cael ei gynnal yn ystod cyfarfodydd addysg cyffredin wedi'u diogelu (a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd). Cadarnhawyd gennym hefyd bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau drwy edrych ar dystysgrifau'r staff.

Gwelsom fod system arfarnu staff ar waith. Fodd bynnag, roedd y ddogfennaeth a ddefnyddiwyd i gofnodi cyfarfodydd o'r fath gyda'r staff yn cynnwys tystiolaeth gyfyngedig bod anghenion hyfforddi yn cael eu nodi neu o'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i sylwadau gan y staff. Felly,

mae'n bosibl yr hoffai'r practis ystyried diwygio'r broses er mwyn sicrhau ei bod yn fwy ystyrlon i bawb dan sylw.

Cadarnhaodd sgysiau gyda nyrs y practis ei bod wedi cwblhau'r broses ailddilysu ofynnol<sup>16</sup> yn ystod 2017. Roedd gan nyrs y practis hefyd fentor a oedd yn gweithio mewn practis cyfagos, a oedd o fudd iddi.

Gwelsom fod pecyn gwybodaeth ar gael i staff locwm er mwyn helpu gweithwyr meddygol proffesiynol wrth weithio yn y practis.

---

<sup>16</sup> Ailddilysu yw'r dull a ddefnyddir i nyrsys adnewyddu eu cofrestrriad, ac mae'n seiliedig ar addysg ac ymarfer ôl-gofrestru (PREP). Diben ailddilysu yw gwella lefel y diogelwch a gynigir i'r cyhoedd drwy sicrhau bod nyrsys yn parhau'n addas at y diben drwy gydol eu gyrfa.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                     | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|--|--|--|----------------------------------|
| Ni wnaethom nodi unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. |  |  |                                  |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Clare Road

### Dyddiad arolygu: 22 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol   | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-------|-----------------------------|------------------|----------|
| Ni wnaethom nodi bod angen gwneud unrhyw welliannau ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. |       |                             |                  |          |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**



## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Clare Road

### Dyddiad arolygu: 22 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                     | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen      |
|--|---------------------------|---|--|---------------|
| <b>Ansawdd profiad y claf</b>  |                           |   |  |               |
| Mae'n ofynnol i'r practis roi gwybod i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir i annog mwy o gleifion i ddefnyddio gwasanaeth Fy lechyd Ar-lein, er budd cleifion a'r practis. | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion | Bydd y practis yn hyrwyddo Fy lechyd Ar-lein drwy gymysgedd o fforymau gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys diweddarau taflen y practis, a gaiff ei hatodi i'r ffurflen gofrestru newydd i gleifion, diweddarau gwefan y practis gan gyfeirio at Fy lechyd Ar-lein ac arddangos posteri enghreifftiol ar safle'r feddygfa. | Nina/Emilia (Uwch Staff Gweinyddol a Staff Gweinyddol / Derbynydd) | Tachwedd 2018 |
| Mae'n ofynnol i'r practis ddiwygio ei daflen gwybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys cyfeiriadau perthnasol at drefniadau Gweithio i Wella a Deddf Cydraddoldeb 2010.                    |                           | Bydd y practis yn diweddarau taflen y practis drwy gyfeirio at drefniadau Gweithio i Wella a Deddf Cydraddoldeb   | Nina/Emilia (Uwch Staff Gweinyddol a Staff Gweinyddol / Derbynydd) | Tachwedd 2018 |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon                            | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol            | Amserlen  |
|---|----------------------------------|---|-----------------------------|---|
|   |                                  | 2010.   |                             |   |
| Hysbyswyd y practis bod angen iddo ddarparu manylion am y camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir i sicrhau bod adolygiadau cymheiriad ffurfiol yn cael eu cynnal o atgyfeiriadau cleifion i AGIC. Dylid gwneud hyn er mwyn gallu nodi gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir.                                | 5.1 Mynediad amserol             | Mae'r practis yn aelod o'r consortiwm ardal ac mae gan y consortiwm hwnnw bynciau trafod penodol, sy'n cynnwys rheoli atgyfeiriadau. Cynhelir cyfarfodydd mewnol rheolaidd i drafod patrymau atgyfeirio er mwyn sicrhau'r arfer gorau. Cynhelir sesiynau amser dysgu ffurfiol hefyd wedi'u diogelu sy'n darparu gwybodaeth sylfaenol am batrymau atgyfeirio. Bydd y practis hefyd yn ystyried cynnal trafodaethau rhagweithiol gyda phractisau eraill lleol am reoli atgyfeiriadau. | Dr R Singh – Meddyg Teulu   | Rhagfyr 2018<br>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn. |
| Hysbysir y practis bod angen datblygu system ffurfiol ar gyfer cael gwybod barn cleifion mewn modd rheolaidd a gweithredol.<br><br>Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu system ar gyfer cofnodi pryderon llafar gan gleifion a/neu eu perthnasau/gofalwyr, a'r | 6.3 Gwrandao a Dysgu o'r adborth | Bydd y practis yn cynnal arolwg blynyddol o'r practis ac yn defnyddio'r canfyddiadau i wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r practis hefyd yn ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion a fydd yn gallu darparu sesiynau adborth ffurfiol.<br><br>Mae blwch awgrymiadau yn ardal aros y feddygfa, ac mae gan y practis bolisi  | M Singh - Rheolwr y Practis | Chwefror 2019<br>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                                 | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen   |
|--|---------------------------------------|---|--|--|
| ymateb iddynt, yn unol â threfniadau Gweithio i Wella.   |                                       | cwynion a thaflen sy'n hysbysu cleifion am y weithdrefn gwynion. Bydd y practis hefyd yn mabwysiadu'r fframwaith sy'n gysylltiedig â "Gweithio i Wella". Bydd y practis yn cadw cofnodlyfr yn y dderbynfa er mwyn nodi sylwadau perthnasol i'w hadolygu. Bydd y practis hefyd yn adeiladu ar y cyfarfodydd a gynhelir bob 6 mis er mwyn adolygu sylwadau a gweithdrefnau. |  |  |
| <b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>  |                                       |   |  |  |
| Dylai'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas ag un aelod o'r staff clinigol sydd wedi ymateb yn wael i frechiadau Hepatitis B. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Mae'r aelod o staff bellach wedi cael brechiad er mwyn cydymffurfio â'r gofynion o ran Hepatitis B.   | Dr R Singh - Meddyg Teulu  | Cwblhawyd  |
| Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am sut y caiff agweddau ar y trefniadau rheoli meddyginiaethau eu gwella yn y dyfodol, mewn perthynas â'r canlynol:       | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau            | Fel rhan o'r sesiwn amser dysgu misol wedi'i ddiogelu, bydd y practis yn sefydlu sesiwn ymwybyddiaeth o offer dadebru ac offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng, ble y mae'r offer wedi'i leoli a   | M Singh/Barbara – Rheolwr y Practis / Staff Gweinyddol / Derbynnnydd | Rhagfyr 2018<br>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol  | Amserlen   |
|---|-------|--|---|--|
| <p>Dylid sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis bob amser yn ymwybodol o leoliad offer dadebru/offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng</p> <p>Rhaid sicrhau bod ffynhonnell therapi ocsigen addas ar gael i dîm y practis i'w defnyddio mewn argyfwng</p> <p>Mae angen atgyfnerthu'r broses ar gyfer monitro cleifion y rhagnodwyd meddyginiaeth risg uchel iddynt megis lithiwm a methotrecsad fel y trafodwyd yn ystod ein harolygiad</p> <p>Nid oedd unrhyw system ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o'r system rhagnodi (gan gynnwys adolygiad o wallau a digwyddiadau pwysig).</p> |       | <p>sut i'w ddefnyddio fel y bo'n briodol.</p> <p>Caiff y ffynhonnell therapi ocsigen ei harddangos ar bosteri staff mewnol yn y feddygfa a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r staff yn ystod sesiynau hyfforddi. Yn ogystal, mae silindr ocsigen cludadwy bellach ar gael.</p> <p>Fel rhan o adolygiadau clinigol rheolaidd, bydd y tîm clinigol yn trafod cleifion y rhagnodwyd meddyginiaethau risg uchel iddynt ac yn ystyried a yw'r feddyginiaeth y cytunwyd arni yn briodol o hyd, p'un a yw'n cydymffurfio â'r cynllun triniaeth ac a oes unrhyw broblemau y mae angen eu datrys.</p> <p>Fel rhan o'r archwiliad adolygu rhagnodi, bydd y practis yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn deall patrymau</p> | <p>M Singh - Rheolwr y Practis</p> <p>Dr R Singh - Meddyg Teulu</p> <p>Dr R Singh/Nina - Meddyg Teulu /</p> | <p>Rhagfyr 2018</p> <p>Tachwedd 2018 -</p> <p>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn</p> <p>Rhagfyr 2018</p> <p>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon  | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol   | Amserlen  |
|--|--|--|--|---|
|  |  | rhagnodi, adolygu cyfraddau gwallau, digwyddiadau pwysig ac unrhyw faterion perthnasol eraill. Cynhelir yr adolygiadau hyn o leiaf unwaith y mis fel rhan o sesiwn ddysgu'r tîm clinigol a byddant yn eitem sefydlog ar yr agenda.   | Uwch Staff<br>Gweinyddol                                 |   |
| Mae'n ofynnol i'r practis gadarnhau p'un a yw cofrestr o'r plant sy'n wynebu risg yn cynnwys manylion plant sy'n derbyn gofal.   | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed | Bydd y practis yn adolygu ac yn diweddarau'r gofrestr risg er mwyn sicrhau y caiff plant sy'n derbyn gofal eu cofnodi'n gywir ar y rhestr. Mae cofrestr ar waith.  | M Singh/Nina - Rheolwr y Practis / Uwch Staff Gweinyddol | Hydref 2018   |
| Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir i sicrhau y caiff rhybuddion diogelwch a natur/canlyniadau digwyddiadau pwysig eu rhannu gyda'r staff. Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd, er mwyn hybu dysgu ym mhob rhan o dîm y practis ac er mwyn atal digwyddiadau pellach. | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol                  | Bydd y practis yn arddangos rhybuddion diogelwch ar yr hysbyswrdd cyffredin ac ar lwyfannau priodol ar gyfer anfon negeseuon. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau pwysig yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd staff ffurfiol fel rhan o'r sesiynau dysgu tîm parhaus. Caiff y digwyddiadau pwysig hyn eu trafod a'u dogfennu ar y ffurflenni cofnodi. | M Singh/Nina - Rheolwr y Practis / Uwch Staff Gweinyddol | Tachwedd 2018<br>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn |
| Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu disgrifiad i  | 3.5 Cadw   | Bydd y practis yn gweithredu ac yn   | M Singh -  | Tachwedd  |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon     | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen  |
|--|-----------|---|--|---|
| <p>AGIC o'r camau gweithredu a gymerwyd/a gymerir mewn perthynas â'r materion canlynol:</p> <p>Er bod y staff yn crynhoi cofnodion meddygol cleifion newydd, nid oedd unrhyw bolisi na gweithdrefn ar waith fel sail i'r dasg bwysig hon. Gallai hyn arwain at anghysondeb rhwng gwiriadau ansawdd ad hoc ar hap</p> <p>Nid oedd unrhyw adolygiad systemataidd yn gysylltiedig ag ansawdd cofnodion data a fyddai'n helpu i wella ansawdd cofnodion y cleifion</p> <p>Roedd diffygion yn y ffordd yr oedd diagnosisu pwysig yn cael eu cyflwyno i gleifion. Gallai hyn effeithio ar ansawdd y wybodaeth ar dudalennau crynodeb cofnodion cleifion. Yn benodol, gallai'r sefyllfa bresennol arwain at ddryswch ar ran meddygon teulu'r practis a/neu aelodau newydd ac aelodau locwm o'r staff o ran cynlluniau gofal cleifion parhaus</p> <p>Roedd angen sicrhau bod y cyswllt rhwng y</p> | cofnodion | <p>diweddarau'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes er mwyn adlewyrchu'r broses o grynhoi cofnodion cleifion newydd. Bydd aelodau perthnasol o'r staff gofal iechyd a chyflogeion yn mynychu sesiwn hyfforddi ym mis Hydref 2018.</p> <p>Bydd y practis yn cynnal archwiliad mewnol yn seiliedig ar sampl ar hap o 5% o'r cofnodion data ar gofnodion cleifion er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb. Caiff yr archwiliad hwn ei ystyried yn erbyn trafodaethau clinigol a gynhelir fel rhan o'r trefniadau llywodraethu clinigol.</p> <p>Bydd y practis yn cynnal adolygiad o'r prosesau cyfredol ac yn ceisio deall unrhyw fethiannau. Fel rhan o'r adolygiad archwilio, caiff cynllun gweithredu ei lunio er mwyn gwella perfformiad a cheisio ymdrin ag unrhyw</p> | <p>Rheolwr y Practis</p> <p>Dr R Singh - Meddyg Teulu</p> <p>Dr R Singh - Meddyg Teulu</p> | <p>2018</p> <p>Rhagfyr 2018</p> <p>Rhagfyr 2018</p> <p>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon  | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol                   | Amserlen  |
|--|--|---|------------------------------------|---|
| <p>meddyginiaethau a ragnodwyd a chyflyrau hirdymor cleifion yn gliriach yng nghofnodion y cleifion er mwyn hwyluso trefniadau parhaus ar gyfer rheoli cleifion.</p>   |  | <p>faterion.</p> <p>Cynhelir archwiliad o'r system glinigol a chaiff ei groesgyfeirio â'r gofrestr LTC a'r gofrestr meddyginiaeth. Caiff hyn ei drafod yn ystod y cyfarfod adolygu clinigol a chytunir ar unrhyw gamau gwella fel rhan o gynllun gwella.</p>              | <p>Dr R Singh - Meddyg Teulu</p>   | <p>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn</p>             |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth  |  |   |                                    |   |
| <p>Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion llawn i AGIC am y camau a gymerwyd/a gymerir mewn perthynas â'r materion a ddisgrifir isod:</p> <p>Nid oedd cynlluniau parhad busnes y practis yn cynnwys rhifau cyswllt allweddol na digon o fanylion i ddangos bod trefniadau addas ar waith o ran digwyddiadau megis colli trydan,</p> | <p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p> | <p>Bydd y practis yn adolygu ac yn diweddarau'r cynllun parhad busnes presennol er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn glir a bydd yn diweddarau'r rhifau cyswllt allweddol. Mae'r practis yn cynnal trafodaethau gyda'r practisau lleol yn yr ardal er mwyn sicrhau bod</p> | <p>M Singh - Rheolwr y Practis</p> | <p>Tachwedd 2018</p> <p>Proses barhaus drwy gydol y</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol  | Amserlen   |
|--|-------|--|---|--|
| <p>gwres, llifogydd, achos sylweddol o absenoldeb ymhlith y staff</p> <p>Mae angen datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd, a diweddarau polisïau a gweithdrefnau allweddol, er mwyn helpu'r staff i ymgymryd â'u gwaith o ddydd i ddydd (er enghraifft, mewn perthynas â phryderon/cwynion, trefniadau rheoli a chymariaethau'r practis mewn perthynas ag atgyfeirio cleifion i ofal eilaidd)</p> <p>Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol mew perthynas â rheoli dadansoddiadau o ddigwyddiadau pwysig. O ganlyniad, roedd cyfleoedd i drafod a dysgu yn cael eu methu</p> <p>Nid oedd cofrestr glir ar gyfer cleifion ag</p> |       | <p>trefniadau addas ar waith pe ceid digwyddiad annisgwyl.</p> <p>Bydd y practis yn diweddarau'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol er mwyn helpu'r staff i ymgymryd â'u prosesau gwaith o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn rhan o'r cylch archwilio blynyddol parhaus i sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu diweddarau fel y bo'n briodol.</p> <p>Caiff y trefniadau ar gyfer rheoli digwyddiadau pwysig eu pennu fel eitem ffurfiol ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd adolygu'r timau clinigol ac anghlinigol. Defnyddir ffurflenni ar gyfer cofnodi digwyddiadau pwysig er mwyn nodi'r trafodaethau a'r gwaith o ddadansoddi digwyddiadau o'r fath. Wedyn, caiff y rhain eu trafod fel rhan o'r</p> | <p>M Singh - Rheolwr y Practis</p> <p>M Singh/Nina - Rheolwr y Practis / Uwch Staff Gweinyddol</p> <p>M Singh - Rheolwr y Practis</p> | <p>flwyddyn</p> <p>Rhagfyr 2018</p> <p>Tachwedd 2018</p> <p>Tachwedd 2018</p> <p>Proses barhaus drwy</p> |



| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol  | Amserlen   |
|--|-------|--|---|--|
| <p>anghenion ychwanegol. O ganlyniad, gall y practis wynebu heriau wrth sicrhau y caiff anghenion cleifion o'r fath eu diwallu</p> <p>Roedd diffyg dealltwriaeth ymhlith y staff a chamau gweithredu cyfyngedig yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r trefniadau GDPR newydd ar gyfer rheoli gwybodaeth am gleifion</p> <p>Mae angen trefniadau recriwtio staff cadarn. Nodir hyn gan nad oedd modd i ni gael sicrwydd bod y staff wedi cael eu recriwtio'n briodol, na'u bod yn gymwys ac yn fedrus mewn perthynas â'r rolau yr oedd disgwyl iddynt ymgymryd â nhw. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddarparu</p> |       | <p>pwyntiau dysgu o'r adolygiadau.</p> <p>Mae gan y practis gofrestr ar gyfer cleifion ag anghenion ychwanegol, a gaiff ei diweddarau'n barhaus, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol y bydd angen gwneud addasiadau fel y bo'n briodol. Caiff hyn hefyd ei nodi ar y system glinigol fel nodyn priodol i'r gwasanaethau cefnogi cleifion. Caiff y cleifion hyn eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.</p> <p>Trefnir sesiwn hyfforddi i bob aelod o'r staff ar drefniadau GDPR er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r broses o reoli gwybodaeth am gleifion.</p> <p>Roedd y practis wedi cynnal cyfarfod ar ôl y sesiynau hyfforddi GDPR i reolwyr lle y trafodwyd yr holl bwyntiau dilys. Caiff cyfarfod practis ei drefnu er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall y prosesau newydd ac er mwyn cytuno ar</p> | <p>M Singh - Rheolwr y Practis</p> <p>M Singh - Rheolwr y Practis</p> | <p>gydol y flwyddyn</p> <p>Rhagfyr 2018</p> <p>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn</p> <p>Tachwedd 2018</p> <p>Proses barhaus drwy gydol y flwyddyn</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol   | Amserlen                              |
|---|-------|--|--|---------------------------------------|
| <p>manylio i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod pob aelod o staff a gyflogir yn y gwasanaeth wedi bod yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt</p> <p>Nid oedd prosesau diogelu clir i'r staff eu dilyn</p> <p>Mae angen cydymffurfio ag agweddau ar ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch (yn benodol, gwiriadau diogelwch tân ac asesiadau risg i'r staff mewn perthynas â defnyddio Offer Sgrin Arddangos).</p> |       | <p>unrhyw drefniadau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Bydd y practis yn adolygu ei bolisi recriwtio a chadw ac yn ceisio egluro a chadarnhau contractau staff presennol gan gyfeirio at wiriadau CRB/DBS. Mae gan bob aelod o'r staff wiriadau DBS cyfredol.</p> <p>Mae gan y practis bolisi diogelu ac mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi hwnnw. Bydd y practis yn trefnu ac yn cyfarwyddo unrhyw sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff ac unrhyw aelodau newydd o staff yn gyfarwydd â'r broses.</p> <p>Cynhelir adolygiad o agweddau cydymffurfio ar iechyd a diogelwch. Gwneir hyn yn unol â chylch adolygu y cytunir arno ac a gofnodir yn y rhestr ar gyfer adolygu polisiau iechyd a diogelwch.</p> | <p>M Singh/Nina - Rheolwr y Practis / Uwch Staff Gweinyddol</p> <p>M Singh - Rheolwr y Practis</p> | <p>Ionawr 2019</p> <p>Ionawr 2019</p> |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** R SINGH

**Teitl swydd:** Meddyg Teulu

**Dyddiad:** 20 Medi 2018